OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1480 (Cy.153)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*9 Mehefin 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Mehefin 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 130 a 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**2**); a

(b) ystyr "y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" ("*the Income Support Regulations*") yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Addasu'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau

2.—(1) Mae Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (Addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987) wedi'i diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl A, yn lle'r addasiad i reoliad 45 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Terfyn Cyfalaf), rhodder—

"Yn lle'r rheoliad hwn rhodder—

(**1**) 2006 p.42. *Gweler* adran 206(1) i gael y diffiniad o "*prescribed*" a "*regulations*".
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116).
(**3**) O.S. 1987/1967.